# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Bryn Tirion Hall School

Dyddiad yr arolygiad: 01/06/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Bryn Tirion Hall School yn darparu cyfleusterau o ansawdd uchel ac amgylchedd dysgu therapiwtig cefnogol sy’n helpu llawer o ddisgyblion i ailymgysylltu’n llwyddiannus ag addysg. Mae bron pob un o’r staff yn adnabod disgyblion yn eithriadol o dda ac yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedus sy’n eu helpu i deimlo’n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn barod i ddysgu. Ymgorfforir dulliau’r ysgol sy’n ystyriol o drawma ac sy’n ymwybodol o awtistiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol, ac maent yn cyfrannu’n gryf at les ac ymgysylltiad emosiynol disgyblion. Er bod llawer o ddisgyblion yn gwella’u presenoldeb dros gyfnod, mae presenoldeb cyffredinol yn parhau’n rhy isel.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a hyblyg sy’n gweddu’n dda i anghenion, diddordebau a dyheadau unigol disgyblion. Mae profiadau dysgu yn ddifyr a pherthnasol, ac yn cynnwys pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored, menter a defnyddio technoleg ddigidol. Mae bron pob un o’r disgyblion yn cael cyfleoedd i deithio dramor ar drip sgïo a chymryd rhan mewn gwersylloedd dosbarth. Mae’r profiadau hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac annibyniaeth yn llwyddiannus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn unigol. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a’u medrau ehangach yn dda ac yn dod yn ddysgwyr cynyddol hyderus ac annibynnol. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr addysgu yn gyson ar draws yr ysgol, ac nid yw targedau dysgu bob amser yn helpu disgyblion i ddeall yn glir beth mae angen iddynt ei wneud nesaf yn eu dysgu.

Mae darpariaeth therapiwtig yr ysgol yn gryfder arbennig. Mae staff yn cymhwyso dulliau cyson i gefnogi anghenion emosiynol, cyfathrebu a synhwyraidd disgyblion ac yn defnyddio’r ddealltwriaeth hon yn effeithiol i hyrwyddo cyfranogiad mewn dysgu.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn cyfrannu’n ystyrlon at wneud penderfyniadau trwy adolygiadau, gweithgareddau’r Cyngor Ysgol a rolau arwain. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt, ac yn gwerthfawrogi ac yn deall sut mae eu barn yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol.

Mae perchnogion ac arweinwyr yn darparu cymorth a her effeithiol, ac wedi sefydlu diwylliant cryf o fyfyrio a gwelliant parhaus. Mae hunanwerthuso, cynllunio gwelliant ysgol a dysgu proffesiynol yn cyd-fynd â’i gilydd yn agos, ac yn cyfrannu’n gadarnhaol at brofiadau a deilliannau disgyblion.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Parhau i gryfhau strategaethau i wella presenoldeb a chynorthwyo disgyblion i ymgysylltu’n llwyddiannus ag addysg

A2 Cryfhau cysondeb yr addysgu trwy sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn cynnal her a momentwm priodol trwy gydol gwersi, tra’n gweddu’n dda i anghenion disgyblion o hyd

A3 Parhau i fireinio trefniadau’r ysgol ar gyfer asesu ac olrhain medrau, a chryfhau dealltwriaeth disgyblion o’u camau nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/08/2026